

Plantlife Welsh press release - No Mow May campaign launch

- Fresh polling demonstrates surging support for Plantlife's No Mow May campaign
- Councils increasingly embracing the grassroots movement for wilder grasslands

Lansio ymgyrch Mai Di Dor gan Plantlife

Mae bron i hanner (46%) y bobl yn bwriadu torri eu glaswellt ddim mwy nag unwaith yn ystod mis Mai eleni, yn ôl Plantlife wrth iddo lansio ei ymgyrch Mai Di Dor i annog pawb i dorri llai ac yn hwyrach ar gyfer byd natur.

Yn ôl arolwg barn newydd (1) a ryddhawyd heddiw (30 Ebrill) mae 33% pellach o'r ymatebwyr yn bwriadu torri eu glaswellt unwaith bob pythefnos, neu bob tair wythnos, gan ddangos bod y symudiad at lawntiau a gofod gwyrdd gwylltach wedi cydio'n gadarn. Yn wir, dim ond 3% o'r ymatebwyr sy'n bwriadu torri eu glaswellt fwy nag unwaith yr wythnos yn ystod mis Mai eleni, a 18% yn wythnosol.

Mae'r arolwg barn yn datgelu mai'r sbardun allweddol i lai o dorri glaswellt yw'r gydnabyddiaeth i sut mae'r planhigion gwyllt sy'n addurno lawntiau gwylltach yn cefnogi bywyd gwyllt: mae bron i dri chwarter (73%) y bobl bellach yn credu bod gadael lawntiau heb eu torri am fis neu fwy yn helpu glöynnod byw, gwenyn a bywyd gwyllt arall. Mae 84% o ymatebwyr yn ystyried ei bod yn bwysig gofalu am yr amgylchedd a chefnogi ymdrechion cadwraeth - fel Mai Di Dor - yn eu bywyd bob dydd.

Dywedodd Sarah Shuttleworth, Uwch Gynghorydd Ecolegol, Plantlife:

"Mae Mai Di Dor yn bwysig iawn oherwydd mae gadael lawntiau i fod ym mis Mai yn caniatáu i amrywiaeth hyfryd o blanhigion gwyllt flodeuo a ffynnu. Mae'r amrywiaeth flodeuog yma sy'n cael ei darparu drwy drefniadau torri gwair mwy hamddenol yn darparu ffynhonnell fwyd gyfoethog ar gyfer cyfoeth o fywyd gwyllt drwy'r haf. Daliwch ati!"

Mae Plantlife wedi arwain y symudiad ar lawr gwlad ar gyfer lawntiau a gofod gwyrdd gwylltach ac mae'r neges yn torri drwedd: dim ond 17% o'r ymatebwyr i'r arolwg barn nododd bod cynnal lawntiau esthetig twt a thaclus yn darparu cefnogaeth i fywyd gwyllt yr ardd (2).

Wrth wneud sylwadau ar ganfyddiadau'r arolwg barn, dywedodd Ian Dunn, Prif Swyddog Gweithredol, Plantlife:

"Mae'r gefnogaeth i ymgyrch Plantlife yn blodeuo'n hyfryd wrth i bobl gydnabod y manteision i blanhigion, pobl, pryfed peillio a'r blaned o dorri'n llai aml ac yn hwyrach er lles byd natur. Mae'r weithred fechan o roi mis o seibiant i'r peiriant torri glaswellt, ac wedyn torri llai drwy'r haf, yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr ar adeg pan rydyn ni'n wynebu argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth cysylltiedig (3)."

Mae dyhead y cyhoedd am lawntiau a gofod gwyrdd gwylltach yn cael ei adlewyrchu fwyfwy gan awdurdodau lleol. Mae mwy a mwy o gynghorau (4) yn croesawu cais Plantlife am roi'r peiriannau torri glaswellt i gadw ym mis Mai wrth iddyn nhw geisio creu lle i blanhigion gwyllt a bywyd gwyllt arall, a brwydro yn erbyn yr argyfwng hinsawdd. Mae torri yn llai aml yn arwain at fwy o amrywiaeth o flodau ac yn lleihau allyriadau carbon.

Am y tro cyntaf mae Plantlife wedi gwahodd cynghorau (5) i ddangos eu cefnogaeth i'r ymgyrch hybu bioamrywiaeth ac mae'r ymateb wedi bod yn galonogol iawn; mae mwy na 40 wedi ymuno â mudiad Mai Di Dor eisoes fel rhan o newid tymor hwy i reoli ymylon ffyrdd glaswelltoga a gofod gwyrdd ar gyfer byd natur.

Dywedodd Andrew Doyle, Swyddog Cadwraeth - Ymylon Ffyrdd a Gofod Gwyrdd, Plantlife:

“Mae profi’r buddion bioamrywiaeth a’r arbedion cost a ddaw yn sgil mis hudolus Mai Di Dor yn borth godidog i gynghorau basio drwyddo ar y ffordd at y rheolaeth fwy hirdymor, sy’n gyfeillgar i fywyd gwyllt, ar laswelltiroedd mae ein planhigion gwyllt a’n ffyngau - a’r ecosystemau sy’n dibynnu arnyn nhw - eu hangen i ffynnu, er budd y gymuned leol a’r hinsawdd.”

Datgelodd yr arolwg barn hefyd bod dynion yn bwriadu torri’r glaswellt yn amlach na merched: nododd 5% o’r dynion y byddent yn torri’r glaswellt fwy nag unwaith yr wythnos yn ystod mis Mai eleni o gymharu â dim ond 2% o ferched. Adlewyrchwyd hyn gan fwriad i dorri glaswellt yn wythnosol: 20% o ddynion, o gymharu â 15% o ferched. Yn gyffredinol, nododd 70% o ferched y byddent yn bendant neu o bosibl yn cymryd rhan ym Mai Di Dor yn 2024, o gymharu â 64% o ddynion.

Mae hybu proffil lawntiau gerddi a gofod gwyrdd - fel y mae Mai Di Dor gan Plantlife yn ei wneud mor rhagorol - yn hanfodol yn erbyn cefndir y dirywiad brawychus mewn cynefinoedd glaswelltir. Mae tua 97% o ddolydd blodau gwyllt wedi cael eu dileu mewn llai na chanrif ac mae hyn wedi symud planhigion a arferai fod yn eang ar un adeg, fel Carpiog y Gors a Chlafrllys y Maes, ar y rhestr Bygythiad Agos yn Lloegr. Gydag amcangyfrif o 23 miliwn o erddi yn y DU, mae’r potensial ar gyfer cynefin glaswelltir wedi’i reoli’n well - hyd yn oed os mai dim ond darn bach o lawnt ydi hwnnw - yn aruthrol.

Wrth esbonio gwerth dull cymysg o reoli lawntiau (6), dywedodd Nicola Hutchinson, Cyfarwyddwr Cadwraeth, Plantlife:

“Amrywiaeth mewn gwirionedd yw’r gyfrinach i lawntiau: mae blodau gwahanol yn darparu adnoddau gwahanol ar gyfer rhywogaethau gwahanol o fywyd gwyllt; mae Meillion ar lawnt flodeuo fer yn darparu achubiaeth i gacwn, ac mae glaswelltau talach yn darparu adnodd hanfodol ar gyfer glöynnod byw a gwyfynod fel y Gwibiwr Bach.”

Mae Plantlife yn annog pobl sy’n hoff o fyd natur i gymryd rhan ym Mai Di Dor, ond nid yw’r canllawiau cyffredinol yn awgrymu peidio â thorri glaswellt o gwbl ar ôl mis Mai. Dylai Mai Di Dor fod yn ddechrau ar adael i’r glaswellt dyfu drwy gydol yr haf. Mae botanegwyr Plantlife yn argymhell dull cytbwys o ofalu am lawntiau drwy gydol y flwyddyn a chasglu’r glaswellt sydd wedi’i dorri. Er mwyn hybu bioamrywiaeth lawnt mae Plantlife yn argymhell nifer o fesurau hynod o syml:

- Ewch ati i osgoi defnyddio chwynladdwyr neu wrtaith gan fod y rhain yn niweidiol i lawer o blanhigion gwyllt.
- Ewch ati i osgoi defnyddio lladdwr mwsogl - gall mwsogl lawnt helpu rhai planhigion gwyllt i sefydlu.
- Rhowch amser i blanhigion fwrw had cyn torri’r glaswellt fel eu bod yn ymledu’n naturiol.
- Pan fyddwch chi’n torri’r glaswellt, dylech symud y glaswellt sydd wedi’i dorri er mwyn atal maethynnau rhag cronni ar lawntiau, a fydd yn annog rhai rhywogaethau, ond a fydd yn niweidiol i’r rhan fwyaf o blanhigion gwyllt.

Ends

Images available for use with credit: <https://bit.ly/PlantlifesNoMowMay2024>

Notes to editors:

Plantlife urges gardeners and guardians of green spaces to not mow in May and relax mowing regimes through Spring and Summer for the benefit of wild plants, people, pollinators and planet.

1) Opinion Matters polling fieldwork was undertaken between 4-8 April 2024. Results are from 2006 respondents over the age of 18 who have lawns at their place of residence that they are able to manage.

2) 17% somewhat or strongly disagreed with the following statement: "prioritising wildlife support in my garden by allowing my lawn to grow more frequently is more important to me than maintaining a neat appearance through regular mowing"

3) The [IUCN Red List of Threatened Species](#) lists 44,000 species as being at risk of extinction, more than 28 per cent of the species that have been assessed.

4) <https://www.plantlife.org.uk/our-work/local-councils-and-no-mow-may/>

5) https://x.com/Love_plants/status/1776161121289838651

6) <https://www.plantlife.org.uk/campaigns/your-no-mow-may-lawn-guide>